YSGOL A CHANOLFANNAU LLOEREN PORTFIELD

DOGFEN BOLISI AR GYFER ADDYSGU A DYSGU

Ffôn: 01437 762701
Ffacs: 01437 771444
Ebost: admin.portfield@pembrokeshire.gov.uk

Chwefror 2016

DATGANIAD O FWRIAD YSGOL PORTFIELD

Gweithio gyda'n gilydd Dysgu gyda'n gilydd Llwyddo gyda'n gilydd

Yn Ysgol Portfield rydym yn ymdrechu i

- Greu awyrgylch ddysgu hapus, ddiogel, gefnogol a chyffrous
- Gwerthfawrogi pawb
- Datblygu lles emosiynol a iechyd personol pawb
- Hyrwyddo sgiliau academaidd a galwedigaethol priodol
- Ateb gofynion unigolion drwy ddulliau hyblyg a llawn dychymyg
- Galluogi pob dysgwr i gyrraedd ei lawn botensial

<u>CCUHP Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn</u>

- Mae Ysgol Portfield yn rhoi gwerthoedd ac egwyddorion y CCUHP yn ganolog i'w pholisïau ac ymarfer i gyd
- Mae Ysgol Portfield yn Ysgol sy'n Parchu Hawliau

ADOLYGU'R POLISI

Bydd y polisi yn cael ei adolygu bob dwy flynedd, neu yn gynt os oes angen newid.

Pennaeth ……. Dyddiad …….

Cadeirydd y Llywodraethwyr ……. Dyddiad …….

Cytunwyd y Polisi gan y Bwrdd Llywodraethol ar _____

Dogfen Bolisi ar gyfer Addysgu a Dysgu

Datganiad o Fwriad

Gweithio gyda'n gilydd Dysgu gyda'n gilydd Llwyddo gyda'n gilydd

Yn Ysgol Portfield rydym yn ymdrechu i

- Greu awyrgylch ddysgu hapus, ddiogel, gefnogol a chyffrous
- Gwerthfawrogi pawb
- Datblygu lles emosiynol ac iechyd personol pawb
- Hyrwyddo sgiliau academaidd a galwedigaethol addas
- Ateb gofynion unigolion drwy ddulliau hyblyg a llawn dychymyg
- Galluogi pob dysgwr i gyrraedd ei lawn botensial

Cyflwyniad

Yn Ysgol Portfield rydym yn credu yn yr hawl i addysg gydol oes a'r syniad bod oedolion a phlant yn dysgu rhywbeth newydd bob dydd. Rydym yn dal at y ffaith y dylai dysgu fod yn brofiad gwobrwyol i'w fwynhau i bawb; mi ddylai fod yn hwyl ac yn gyffrous.

Diffiniad Dysgu

- "Mae dysgu yn golygu gwneud synnwyr personol o wybodaeth a phrofiadau....yn sylfaenol mae'n broses adfyfyriol" – Mike Hughes
- "Yn ganolog i ddysgu dwys mae'r syniad o adfyfyrio – ee. y broses lle mae gwybodaeth a phrofiad yn cael eu mewnoli ac mae gwybodaeth yn cael ei greu"– John West-Burnham
- "Nod sylfaenol addysg yw dealltwriaeth" – Howard Gardner

Nod ac Amcanion

- Drwy ein haddysgu rydym yn arfogi plant gyda'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol iddynt fedru gwneud penderfyniadau gwybodus am y pethau pwysig yn eu bywydau. Ein prif nod yn Portfield yw datblygu pob plentyn i'w lawn botensial, gan ddeall y bydd rhai o'n disgyblion bob amser yn ddibynnol ar oedolyn ym mhob agwedd o'u bywyd.

  Dylai'r ddogfen yma gael ei darllen gyda'r dogfennau ysgol gyfan canlynol:

- Datganiad cwricwlwm ysgol gyfan
- Polisi asesu, cofnodi ac adrodd
- Polisi Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac Iechyd (ABCh)
- Cytundeb Cartref Ysgol
- Polisi Cyfleoedd Cyfartal
- Polisi CPA (amser wedi ei warchod)
- Polisi Datblygiad Proffesiynol Parhaus
- Polisi Gwaith Cartref
- Polisi Ymddygiad a Gwrth-fwlio

- FfLlRh a Sgiliau Allweddol ar draws y Cwricwlwm
- Polisïau pwnc
- Polisi Cyfnod Sylfaen

Drwy ein dysgu ein nod yw:

- Galluogi plant i fod yn hyderus, yn ddyfeisgar, yn chwilfrydig ac yn ddinasyddion annibynnol
- Annog hunan gred a lles plant a'u helpu i greu perthnasau cadarnhaol gyda phobl eraill;
- Datblygu hunan barch plant a'u hannog i barchu syniadau, agweddau, gwerthoedd a theimladau eraill mewn cymdeithas amlddiwylliannol
- Defnyddio dulliau thematig o ddysgu wedi ei seilio ar gwricwlwm sgiliau sy'n addas ar gyfer anghenion y disgyblion.
- Dangos parch tuag at bob diwylliant a, thrwy hynny, annog agweddau cadarnhaol tuag at bobl eraill;
- Cyfranogi mewn amrywiaeth o amgylcheddau cynhwysol sy'n briodol i anghenion y disgyblion.

Mae'r canlynol yn disgrifio sut yr ydym yn helpu plant ddysgu hyd eithaf eu gallu yn Ysgol Portfield, gan ystyried ethos yr ysgol, trefniadau'r ystafell ddosbarth, perthnasau, cwricwlwm, sgiliau dysgu, dysgu annibynnol, arddangos/dathlu dysgu ac asesu.

Yr Hinsawdd Ddysgu – Ethos ysgol, trefniadaeth a rheolaeth yr ysgol o ddydd i ddydd yn ateb gofynion statudol.

Mae plant yn dysgu orau pan maent-

- Mewn amgylchedd gofalgar, cyfforddus a chroesawgar
- Yn hapus ac yn hyderus
- Yn gyfeillgar ac yn garedig i'w gilydd
- Yn cael eu canmol yn gadarnhaol a'u hannog
- Yn cael cyfleoedd i ddangos menter
- Yn cael eu hannog i rannu eu llwyddiannau
- Yn cael eu hannog i fod yn annibynnol
- Yn cael eu herio gan ddisgwyliadau uchel
- Yn cael y cyfle i fynd ar drywydd eu diddordebau
- Yn cael trefn gyson a chefnogaeth cyfathrebu gweledol

Meini Prawf Llwyddiant

- Plant ag agweddau cadarnhaol at ddysgu
- Ymwelwyr / plant yn cael eu trin yn gyfeillgar a gofalgar
- Plant yn dangos menter
- Plant yn dangos y gallu i ateb cwestiynau mewn ffordd hyderus
- Plant ac oedolion yn dangos parch tuag at ei gilydd a'r gallu i weithio ar y cyd
- Plant yn medru derbyn beirniadaeth adeiladol ac yn dangos ymwybyddiaeth o beth sy'n iawn a beth sy'n anghywir
- Plant yn dangos diddordeb ac yn cyfranogi'n llawn i fywyd yr ysgol

- Plant yn cyrraedd eu llawn botensial
- Plant yn rheoli eu hymddygiad

Trefniadau'r Ystafell Ddosbarth

Mae plant yn dysgu orau pan:

- Mae trefniadau grwpiau dysgu a grwpiau llawn ayyb yn gweddu i anghenion disgyblion unigol ac i ofynion y cwricwlwm
- Mae'r ystafell wedi ei gosod yn addas ar gyfer y wers
- Mae mynediad hwylus i adnoddau sydd wedi eu labeli yn glir ac wedi eu trefnu yn daclus ac yn ddiogel
- Mae arddangosfeydd cyffrous yn rhoi gwerth ar waith y plant ac yn cynnwys arddangosfa Gymraeg
- Mae angen i arddangosfeydd fod yn gyfredol ac yn berthnasol i thema'r tymor
- Mae cynorthwywyr dysgu yn cefnogi'r addysgu mewn modd priodol, gan annog annibyniaeth pan yn berthnasol
- Mae disgwyliadau uchel a threfn reolaidd ar gyfer gweithio mewn gwahanol ardaloedd o fewn yr ysgol
- Mae cefnogaeth ychwanegol wedi ei dargedu'n bwrpasol at anghenion y plant.
- TGCh ar gael mewn ffyrdd amrywiol ac yn cael ei ddefnyddio'n briodol i gefnogi addysgu a dysgu
- Mae datblygiad sgiliau annibynnol a sgiliau meddwl yn cael eu hyrwyddo ar draws yr ysgol
- Mae athrawon ar draws yr ysgol yn defnyddio strategaethau TEACCH i drefnu a gosod eu hystafelloedd dosbarth.

Meini Prawf Llwyddiant

- Amgylchedd trefnus, cyffrous gydag ardaloedd addas, er enghraifft, cornel darllen
- Plant yn cymryd y cyfrifoldeb o gael mynediad at offer ac adnoddau i ddatblygu a hybu annibyniaeth
- Plant yn edrych ar ôl offer (gan eu trin yn ofalus ac yn ddiogel) a'u defnyddio'n ofalus
- Plant yn gweithio'n dda gyda'i gilydd
- Plant ar dasg
- Plant yn dangos cynnydd o ran allbynnau a hunan gred
- Plant sydd wedi cael cefnogaeth yn dangos cynnydd
- Plant yn gwybod sut i ofyn am help

Perthnasau

Mae plant yn dysgu orau pan:

Plentyn / Plentyn

- Maent yn gwrando ar ei gilydd
- Maent yn cyd-dynnu'n dda

- Maent yn dangos parch a goddefgarwch ym mhob peth yn cynnwys amrywiaethau diwylliannol a chrefyddol

Athro / Plentyn

- Maent yn dangos parch at ei gilydd
- Mae ganddynt yr un nod ac amcanion
- Mae'r athro'n rhoi anogaeth ac yn rhoi targedau a gytunwyd arnynt i ymateb i anghenion
- Mae'r athro yn hawdd mynd ato ac yn hawdd ei gyrraedd ac yn barod i ateb anghenion plant unigol
- Mae'r athro'n defnyddio dulliau cyfathrebu amrywiol
- Mae'r athro yn gwobrwyo ymdrech a chynnydd

Athro / Rhiant / Llywodraethwr

- Mae partneriaeth dda rhwng athrawon, rhieni a llywodraethwyr gyda phawb yn rhannu'r un nod ac yn cyfathrebu'n effeithiol
- Cefnogaeth, cyngor ac arweiniad yn cael eu cynnig i deuluoedd a barn rhieni yn cael ei werthfawrogi

Meini Prawf Llwyddiant

Plentyn / Plentyn

- Awyrgylch hapus, hamddenol
- Gweithio ar y cyd h.y. dosbarth cyfan, mewn grwpiau, mewn parau
- Hyder gan y plentyn i rannu / cyfranogi yn nhrafodaethau'r dosbarth a gwasanaethau ysgol

Plentyn / Athro

- Parch rhyngddynt yn cael ei arddangos yn y ffordd y maent yn siarad â'i gilydd
- Derbyn canmoliaeth a beirniadaeth

Athro / Rhiant / Llywodraethwr

- Awyrgylch groesawgar
- Cyfathrebu cytbwys
- Rhieni a llywodraethwyr yn cyfranogi'n weithredol yng ngweithgareddau'r ysgol
- Cyfleoedd ymgynghori

Perthynas gydag ysgolion eraill / AALl

- cyfleoedd cynhwysiad
- rhannu arfer dda
- diwrnodau HMS ar y cyd
- darpariaeth estyn allan

Cwricwlwm

Mae plant yn dysgu orau pan:

- Mae'r cwricwlwm yn eang ac yn gytbwys ac yn cynnwys DPCh fel rhan o'r cwricwlwm craidd
- Mae'r cwricwlwm yn fywiog, yn ysgogi ac yn ddiddorol
- Mae'r ddarpariaeth yn cynnig sialens ac yn addas ar gyfer anghenion pob disgybl
- Mae amrywiaeth o ddulliau addysgu
- Defnyddir cwestiynau a thrafodaethau fel dulliau cyfathrebu effeithiol
- Mae gan yr athro wybodaeth gadarn / mynediad at arbenigedd / adnoddau
- Mae'r athro yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion fod yn ddysgwyr gweithgar annibynnol gan gynnwys mynediad i adnoddau
- Mae gwaith cartref addas yn cael ei gwblhau (pan yn briodol)
- Ceir defnydd o ardaloedd y tu mewn a thu allan
- Mae dysgu tu allan yn cael ei hybu lle bynnag mae'n bosib
- Canolbwyntir ar sgiliau yn cynnwys sgiliau galwedigaethol, a sgiliau byw yn annibynnol, fel sy'n addas i oed a gallu'r plentyn.

Meini Prawf Llwyddiant

- Plant yn cyrraedd eu llawn botensial
- Cynllunio a chadw cofnodion clir
- Adnoddau da yn cael eu cynnal
- Plant â diddordeb yn eu dysgu
- Gwaith cartref addas

Dulliau Addysgu

Mae plant yn dysgu orau pan:

- Mae gan yr athro nodau ac amcanion clir
- Mae dulliau a strategaethau addysgu amrywiol yn cael eu defnyddio
- Ddefnyddir cwestiynau a thrafodaethau fel dulliau cyfathrebu effeithiol
- Mae tasgau yn wahaniaethol, yn ysgogol, yn cynnig sialens ac i bwrpas
- Maent yn cael eu cymell trwy rannu amcanion a gan ddealltwriaeth glir, ac maent yn mwynhau eu hunain
- Mae gan athrawon wybodaeth pwnc gadarn
- Mae athrawon yn cynllunio'n briodol
- Mae addysgu yn cael ei seilio ar brofiadau ymarferol lle'n bosib
- Mae athrawon yn darparu profiadau i ddisgyblion i fod yn annibynnol, yn ddysgwyr gweithgar ac i gymryd diddordeb yn eu gwaith
- Mae athrawon yn cadw cofnodion disgybl priodol, yn eu defnyddio a'u rhannu gydag athrawon eraill er mwyn mesur cynnydd a chynllunio'n bwrpasol
- Mae athrawon yn cynnig adborth o ansawdd ar sut i ddatblygu ac annog plant i drafod a gwerthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eraill (hunan asesiad fel rhan o Asesu ar Gyfer Dysgu)
- Mae athrawon yn adeiladu ar brofiadau blaenorol y plant
- Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel ac yn gwneud hyn yn eglur

- Maent yn cael yr amser i adfyfyrio ar eu profiadau
- Mae'r athro yn gyson, yn deg ac yn osgoi rhagdybio
- Mae'r athro yn hybu agweddau cadarnhaol am ddysgu megis, cymhelliant, diddordeb, canolbwyntio ac ati
- Mae athrawon yn gwneud defnydd da o asiantaethau allanol i gefnogi addysgu a dysgu
- Mae athrawon yn defnyddio cynorthwywyr dysgu yn effeithiol i hybu'r holl strategaethau uchod
- Mae athrawon yn cysylltu'n agos gyda rhieni/gofalwyr i drosglwyddo sgiliau drwy gynlluniau dysgu unigol
- Mae athrawon yn hybu annibyniaeth a sgiliau meddwl
- Mae athrawon wedi derbyn hyfforddiant cyfredol
- Mae methodoleg TEACCH yn cael ei ddefnyddio ar draws yr ysgol

Fframwaith Llythrennedd (FfLlRh)

Mae tri llinyn Llafaredd, Darllen ac Ysgrifennu. Dylai disgyblion cael cyfle, lle'n briodol, i ddatblygu'r tri llinyn ar draws eu dysgu.

Fframwaith Rhifedd (FfLlRh)

Mae pedwar llinyn rhifedd – datblygu rhesymeg rhif, defnyddio sgiliau rhif, defnyddio sgiliau mesur a sgiliau trin data. Dylai disgyblion gael y cyfle i ddatblygu a chymhwyso'r sgiliau yn y pedwar llinyn ar draws eu dysgu.

Sut mae Dysgu Effeithiol yn cael ei ddatblygu

Mae Ysgol Portfield yn datblygu dysgu effeithiol drwy:

- Gynlluniau addysg unigol
- Ystyriaeth o ddatblygiad llawn y plentyn (dull tîm o gwmpas y plentyn)
- Gosod targedau ar gyfer y disgyblion
- Datblygiad synhwyraidd
- Dulliau Asesu ar gyfer Dysgu
- Sgiliau meddwl a datrys problemau
- Rhoi gwerth i addysg
- Metawybyddiaeth - dysgu sut i ddysgu
- Egwyddorion Grwpiau Anogaeth
- Defnydd effeithiol a dychmygus o TGCh
- Arddulliau dysgu
- Rheoli ymddygiad cadarnhaol
- Gweithredu'r cwricwlwm awyr agored

Hinsawdd Ddysgu – ein diwylliant

- Cyfathrebu effeithiol yn defnyddio amrediad o ddulliau e.e. gwrthrychau i gyfeirio atynt, PEC, arwyddo, cymorth cyfathrebu a lleferydd
- Pwyslais ar ddatblygu ymagwedd gadarnhaol at fywyd
- Mynediad i ddŵr

- Defnyddio cerddoriaeth i gefnogi dysgu
- Defnyddio amrediad o ddulliau, ffisiotherapi, technegau 'rebound', therapi dŵr, strategaethau Rhaid, Dylai , Gall ar gyfer athrawon – gweler atodiad 1
- Bod yn rhagweithiol wrth ddatrys problemau

Meini Prawf Llwyddiant

- Amcanion dysgu clir sy'n dangos gwahaniaethu
- Mae plant yn deall pwrpas y gwaith y maent yn ei wneud
- Dilyniant a pharhad
- Cynnydd mewn safonau

Dysgu Annibynnol

Mae plant yn dod yn fwy annibynnol pan maent yn cael eu hannog i:

- ddatblygu hyder ym mhob agwedd o'r cwricwlwm
- datblygu hunan ddisgyblaeth
- gwneud dewisiadau a phenderfyniadau
- medru cyfiawnhau safbwyntiau
- medru dewis a defnyddio ffynonellau adnoddau ac adnoddau yn briodol, hyderus a chyfrifol
- bod yn barod i dderbyn heriau - i drio pethau newydd
- rheoli newid
- defnyddio ystod o strategaethau i reoli eu hymddygiad

Meini Prawf Llwyddiant

- Mae plant yn defnyddio ffynonellau ac adnoddau yn dda
- Teimlad cadarnhaol rhwng staff a phlant
- Mae gan blant yr hunan hyder i ddechrau a chynnal trafodaethau a sgyrsiau
- Mae plant yn medru adfyfyrio, gwerthuso a bod yn onest am eu cyraeddiadau
- Monitro a gwerthuso addysgu a dysgu

Mae plant yn dysgu orau pan mae asesiad:

- Yn seiliedig ar ddealltwriaeth gytûn o safonau
- Yn ateb anghenion penodol
- Yn barhaus
- Yn syml, yn ddefnyddiol ac yn hawdd ei ddeall gan bawb sy'n ei ddefnyddio
- Yn cynnwys plant
- Â phwrpas clir
- Yn rhoi gwybodaeth i athrawon ar gyfer cynllunio gwaith disgyblion
- Yn strwythuredig
- Yn annog plant i fod yn llwyddiannus ac yn eu helpu i wneud cynnydd ac mae cofnodion yn:-
- Hawdd eu rheoli
- Rhoi gwybodaeth

- Defnyddiol
- Yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth
- Yn cael ei ddefnyddio i roi gwybodaeth ar gyfer adrodd
- Yn fyfyriol
- Yn cyfarwyddo DPP a CDY

Meini Prawf Llwyddiant

- Cofnod cywir o waith a aseswyd
- Mae plant yn cael eu canmol a'u gwobrwyo am lwyddiant
- Cynnydd amlwg a thystiolaeth bod asesu yn cyfarwyddo cynllunio
- Mae plant yn gweld gwerth yn eu gwaith
- Mae plant yn deall sut i wneud cynnydd a sut i wella eu safonau

Rôl yr Uwch Dîm Rheoli a'r Llywodraethwyr

Mae'r UDRh a'r Llywodraethwyr yn penderfynu ar, yn cefnogi, yn monitro ac yn gwerthuso polisïau'r ysgol sy'n ymwneud ag addysgu a dysgu. Yn benodol, maent yn:

- Cefnogi'r defnydd o ddulliau addysgu priodol gan bennu adnoddau'n effeithiol;
- Sicrhau bod adeilad a thir yr ysgol yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau i gefnogi addysgu a dysgu llwyddiannus;
- Monitro pa mor effeithiol yw strategaethau addysgu a dysgu yn nhermau cyrhaeddiad disgyblion;
- Sicrhau bod polisïau datblygu a mesur perfformiad staff yn hyrwyddo dysgu o ansawdd uchel;
- Monitro effeithiolrwydd polisi addysgu a dysgu'r ysgol drwy brosesau hunan asesu'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys monitro, cynllunio, cwricwlwm ac arsylwi o fewn y dosbarth. Mae'r rhain yn cynnwys adborth wrth gydlynwyr cwricwlwm ac adroddiad y pennaeth i lywodraethwyr, yn ogystal ag adolygiad o hyfforddiant mewn swydd a fynychir gan staff.

Arddangos

Mae plant yn dysgu orau pan mae arddangosfeydd yn:

- Symbylus, yn ddeniadol, yn rhoi gwybodaeth, yn berthnasol ac yn bwrpasol
- Cael eu newid yn gyson e.e. bob hanner tymor
- Dangos cyfraniad gan y plant i gyd, ac yn cael eu defnyddio i ddathlu cynnydd
- Dangos amrediad o alluoedd
- Cael eu defnyddio fel cymorth i addysgu
- Yn annog y teimlad o falchder
- Yn defnyddio 2D a 3D
- Rhyngweithiol
- Cynnwys syniadau plant

Meini Prawf Llwyddiant

- Ansawdd gwaith sy'n cael ei arddangos

- Enghreifftiau o labeli pwrpasol
- Plant yn ymwybodol o'r arddangosfa ac yn medru siarad amdano
- Cofnod ffotograffig o arddangosfeydd a fu
- Arddangosfeydd yn cael eu defnyddio wrth addysgu a dysgu

Gwerth a pherthnasedd teithiau preswyl ac ymweliadau cymunedol ar gyfer disgyblion a myfyrwyr

Mae ymweliadau addysgiadol y tu allan i'r ystafell ddosbarth yn rhan fawr o gwricwlwm Portfield. Er bod manteision cyfleoedd o'r fath o bosib yn ymddangos yn amlwg, mae'n bwysig ystyried gwir werth y digwyddiadau yma i ddisgyblion sydd ag amrediad eang o anghenion dysgu arbennig:-

- Mae'n cynnig cyfleoedd i athrawon ateb gofynion y cwricwlwm yn llawn gan fynd ar draws nifer o bynciau a darparu cyfleoedd dysgu ymarferol i'r disgyblion, yn aml iawn, dyma eu profiadau mwyaf cofiadwy
- Esiamplau ymarferol o theori a ddysgwyd yn yr ysgol yn ail gynnau diddordeb y disgybl ac yn cyflwyno gwybodaeth ymarferol a sgiliau, a fydd yn dychwelyd i'r dosbarth gyda hwy, ac yn eu dilyn wrth iddynt ddod yn oedolion.
- Mae ymweliadau yn cynnig cyfleoedd gwirioneddol, cyffrous, diogel, llawn hwyl na fyddai llawr o'r disgyblion yn medru cael mynediad atynt yn rhywle arall oherwydd AAA.

I blant yn Ysgol Portfield mae ymweliadau addysgiadol yn gwella datblygiad ein pobl ifanc mewn amryw o ffyrdd. Rydym yn credu bod y cyfleoedd yma yn rhoi'r cyfle i'n myfyrwyr gyrraedd rhai o'r nodau na fyddent yn eu cyrraedd fel arall.

- Iechyd - mae ymweliadau awyr agored yn helpu myfyrwyr i ddysgu am fyw'n iach a meddyliau actif
- Diogelwch - mae disgyblion yn dysgu sut i gymryd risgiau mewn modd diogel mewn amgylchedd diogel wedi eu cefnogi gan ein gweithwyr proffesiynol profiadol.
- Mwynhad a chyrhaeddiad - mae disgyblion yn dysgu drwy'r broses o gael hwyl, drwy sialensiau sy'n annog cymryd rhan ac sy'n ysgogi, wrth iddynt ddysgu mwy am eu hunain ac am eu cydweithwyr.
- Cyfraniadau cadarnhaol - mae disgyblion yn dysgu sut i weithio fel rhan o dîm, yn rhoi a derbyn cefnogaeth, goddefgarwch ac anogaeth. Yn fwy pwysig, i'n disgyblion, mae amser i ffwrdd o adref yn codi hyder, annibyniaeth a sgiliau allweddol bywyd; yn cynnwys gwneud penderfyniadau, menter arwain a datrys problemau.
- Lles economaidd - myfyrwyr yn cael eu harfogi â sgiliau gwerthfawr ar gyfer y dyfodol. Mae hefyd yn agor drysau i'r profiadau sydd ar gael. Mae'r profiad o ddysgu y tu allan i'r ffordd academaidd yn cynyddu awydd y myfyriwr i ddysgu, sy'n ffordd o godi safonau a lefelau cyrhaeddiad.

Yn bennaf oll, mae ymweliadau yn datblygu'r berthynas rhwng myfyrwyr, staff a'r gymuned.

ATODIAD 1

RHAID I BOB ATHRO

- Dderbyn yr her o wneud dysgu'n addas i bob disgybl, sy'n golygu darparu tasgau/adnoddau/cefnogaeth amrywiol fel eu bod i gyd, yn unigol, yn debygol o lwyddo.
- Talu sylw i gyflwr ffisegol yr ystafell ddosbarth - gwirio bod digon o awyr iach , bod y tymheredd yn iawn (rhy gynnes ac mae'r ymennydd yn arafu, rhy oer ac mae'n tynnu sylw disgyblion) a bod arddangosfeydd priodol a chyfredol ar y waliau.
- Mynd i'r afael â chamsyniadau a dealltwriaeth rannol disgyblion; eu dwyn i'r amlwg a'u herio (creu gwrthdaro gwybyddol) - dyma sail cyflymiad gwybyddol.
- Gwirio bod gwaith cartref yn cael ei osod yn unol â pholisi'r ysgol
- Rhoi sylw i iaith; osgoi gwawdio a ffyrdd eraill o fychanu.
- Uwchben popeth, anelu at fod yn berson sy'n hyrwyddo'r broses ddysgu; defnyddio ystod eang o adnoddau i gyflwyno'r cynnwys - fideos, adnoddau ar-lein, llyfrau, ymweliadau gan "arbenigwyr", disgyblion eraill, posteri, taflenni gwybodaeth, ac ati.
- Ar gyfer pob tasg a osodir, gofyn "beth fydd disgyblion yn ei ddysgu o wneud hyn?" Osgoi tasgau i lanw amser a thasgau lefel isel.
- Sicrhau tystiolaeth bod gwersi wedi eu cynllunio a'u paratoi yn dda (e.e. nodiadau cynllun gwaith manwl neu Ddogfen Gynllunio)
- Egluro i ddisgyblion bod cysylltiadau rhwng gwersi; eu cyfeirio yn ôl at ddysgu blaenorol ac ymlaen at yr hyn sy'n dod nesaf. Cofio rhoi'r Darlun Mawr.
- Rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ofyn cwestiynau.
- Defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu dros gyfnod o amser; fan lleiaf cynnwys dulliau gweledol, clywedol a chinesthetig i'r rhan fwyaf o wersi.
- Dewis adnoddau sy'n gwneud synnwyr i ddisgyblion. Er enghraifft, dewis (gwneud, os oes angen) adnoddau testun sydd o fewn oed darllen y disgyblion.
- Anelu i wahaniaethu gwaith.
- Sicrhau bod gwaith/gweithgareddau yn cael ei wahaniaethu trwy waith ymestynnol. Rhaid darparu ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog (MATh).
- Bod yn barod i gymhwyso'r addysgu i fod yn briodol i gyflymdra a dyfnder dealltwriaeth disgyblion; bydd hyn yn cynnwys gwirio'u dealltwriaeth nifer o weithiau mewn gwers er mwyn addasu'n syth.
- Cyflwyno gofynion cynnwys-benodol a chyffredinol y Fframwaith Sgiliau, y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol, y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol.
- Defnyddio strategaethau asesu ffurfiannol i gynnwys disgyblion yn eu dysgu.
- Cydnabod cryfderau a chyflawniad cymharol disgyblion, weithiau mewn ffyrdd tawel a chynnil, weithiau'n gyhoeddus.
- Cyfleu disgwyliadau uchel a mynnu safonau uchel o ymddygiad, ond bod yn sŵr i gydbwyso un sylw negyddol gyda phedwar sylw cadarnhaol.
- Rhoi gwerth ar gamgymeriadau disgyblion gan eu bod yn gallu arwain at gyfleoedd dysgu gwerthfawr; felly, annog disgyblion i "roi cynnig arni" hyd yn oed os nad oes sicrwydd o lwyddo.
- Defnyddio enwau cyntaf disgyblion.
- Cynllunio gwersi o gwmpas y 4 cam dysgu (Darlun Mawr - Gwybodaeth Newydd - gweithgarwch "gwneud synnwyr" - Adolygu)

- Rhoi gwybod i ddisgyblion bod eu profiad blaenorol a'u gwybodaeth yn cael eu hystyried. Gofyn iddynt beth maent yn ei wybod ac yn gallu ei wneud.
- Ystyried gallu disgyblion i ganolbwyntio* sy'n golygu newid gweithgarwch ddwywaith neu dair yn ystod gwers arferol (*fel canllaw syml: nifer y munudau y gall disgybl ganolbwyntio = oed cronolegol+2)
- Cydbwyso cyfnodau siarad athro a chyfnodau siarad disgybl fel bod disgyblion yn cael cyfleoedd i fynegi (ac felly cysylltu gyda) eu dysgu wrth fynd yn eu blaenau.
- Rhoi adborth ar unwaith hyd y bo'n bosibl.
- Trafod eu dysgu gyda disgyblion i'r graddau bod pob un ohonynt yn gallu egluro pam maent yn cyflawni tasg benodol, a bod ganddynt syniad clir o'r hyn sydd ei angen i wella perfformiad personol.
- Addysgu disgyblion yn systematig am nodweddion y grefft o Ddysgu; rheoli amser, hunan ddisgyblaeth, cymryd nodiadau, rheoli adnoddau, cynllunio, holi, gofyn am gymorth, cofio, dyfalbarhad, rhyng-ddibyniaeth, negydu, ac yn y blaen.
- Blaenoriaethu sgiliau meddwl; eu hybu trwy addysgu (e.e. sgiliau holi) a thrwy ddylunio tasgau.
- Cynorthwyo disgyblion i adnabod a deall ystod o brosesau meddwl a dysgu (meta wybyddiaeth).
- Cynllunio i ddatblygu creadigrwydd dysgwyr. Rhoi gwerth ar greadigrwydd wrth asesu gwaith disgyblion.
- Gwirio dealltwriaeth disgyblion ar ddiwedd y wers, er mwyn cynllunio'n effeithiol ar gyfer y wers nesaf.
- Cynllunio i wneud defnydd effeithiol o'r Cynorthwyydd Dysgu; ei groesawu/ ei chroesawu i'r wers; rhannu braslun o gynlluniau gwersi ac adnoddau.
- Rhoi dewis i ddysgwyr - gadael iddynt ddewis y ffordd orau i fynd i'r afael â'u dysgu o nifer o opsiynau; dangos iddynt sut i wneud penderfyniadau doeth ar sail eu hymwybyddiaeth ohonynt eu hunain fel dysgwyr.
- Dangos i ddisgyblion sut i greu targedau dysgu personol a'u cyflawni'n annibynnol.
- Anelu at fod yn ymarferwr adfyfyriol. Cyflawni ymchwil gweithredol er mwyn datblygu sgiliau addysgu.
- Ymgyfarwyddo ag ymchwil i'r broses ddysgu.
- Ystyried anghenion synhwyraidd disgyblion wrth drefnu'r ystafell ddosbarth ac wrth gyflawni gweithgareddau tu allan i'r ystafell ddosbarth.
- Ystyried yr effaith 'mynydd ia' ar ymddygiad disgyblion a chwilio am resymau gwahanol dros ymddygiad a bod yn greadigol wrth helpu disgyblion i reoli eu hymddygiad eu hunain.
- Cynnal safonau da o ymddygiad trwy wobrwyo, canmol, ac yn y blaen.

ATODIAD 2

Adnoddau defnyddiol:

- Learning & Teaching Scotland www.ltscotland.org.uk/index.asp
- The Highlands Virtual Library www.highlandschools-virtualib.org.uk/
- Northern Ireland www.nicurriculum.org.uk
- Mike Hughes www.mikehughes-ets.co.uk
- DfES/DCfS – www.nationalstrategies.standards.dcsf.gov.uk//
- Paul Ginnis – "the Teacher's Toolkit" – Crown House Publishers ISBN-10:1899836764
- Shirley Clarke – http://www.shirleyclarke-education.org/ (a nifer o gyhoeddiadau yn ymwneud Asesu ar gyfer Dysgu)
- Paul Black/Dylan William – erthyglau amrywiol ar Asesu ar gyfer Dysgu
- TLRP – http://www.tlrp.org/ - gwefan eang ddefnyddiol) hefyd dwy ddogfen allweddol ar eich disg "Links")
- Nurturing – http://www.nurturegroups.org/index.phb

ATODIAD 3

Beth yw Arferion Meddwl?

(http://www.habits-of-mind.net/)

Mae Arferion Meddwl yn golygu tueddiad i ymddwyn yn ddeallus pan ydych yn dod wyneb yn wyneb â phroblemau nad yw eu hatebion yn hysbys yn syth:

- Persisting/Dyfalbarhad
- Thinking and communicating with clarity and precision/Meddwl a chyfathrebu gydag eglurder a manylder
- Managing impulsivity/Delio a byrbwylltra
- Gathering data through all senses/Casglu data drwy'r synhwyrau I gyd
- Listening with understanding and empathy/Gwrando gyda dealltwriaeth ac empathi
- Creating, imagining, innovating/Creu, dychmygu, arloesi
- Thinking fleibly/Meddwl yn hyblyg
- Responding with wonderment and awe/Ymateb gyda rhyfeddod a syndod
- Thinking about thinking (metacognition)/ Meddwl am feddwl (metawybyddiaeth)
- Taking responsible risks/Cymryd risgiau cyfrifol
- Striving for accuracy/Ymdrechu tuag at gywirdeb
- Finding humor/Darganfod hhimwmor
- Questioning and posing problems/Holi a gosod problemau
- Thinking interdependently/Meddwl yn gyd-ddibynnol
- Applying past knowledge to new situations/Cymhwyso gwybodaeth flaenorol I sefyllfaoedd newydd
- Remaining open to continuous learning/Parhau'n agored I ddysgu parhaus

Addysg sy'n Seiliedig ar Werthoedd

(http://www.values-education.com/)

Mae ysgol seiliedig ar werthoedd yn hybu athroniaeth addysg sy'n seiliedig ar werthfawrogi'r hunan, eraill a'r amgylchedd, drwy ystyried geirfa gwerthoedd moesol (egwyddorion sy'n arwain ymddygiad) fel sylfaen i ymarfer addysg dda.

- Appreciation/Gwethfawrogiad
- Caring/Gofalgarwch
- Cooperation/Cydweithrediad
- Courage/Dewrder
- Freedom/Rhyddid
- Friendship/Cyfeillgarwch
- Happiness/Hapusrwydd
- Honesty/Gonestrwydd
- Hope/Gobaith
- Humility/Gwyleidd-dra
- Patience/Amynedd
- Love/Cariad
- Peace/Heddwch
- Quality/Ansawdd
- Respect/Parch
- Responsibility/Cyfrifoldeb
- Simplicity/Diniweidrwydd
- Thoughfulness/Meddylgawrch
- Tolerance/Goddefgarwch
- Trust/Ymddiriedaeth
- Understanding/Dealltwriaeth
- Unity/Undod

ATODIAD 5 – ASESIAD DYSGU

Gweler atodiad